# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd R M I Shaw** **Ward: Pontycymer**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall  Barn y cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Pontycymer ar 8 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 148 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill.   Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Yn y flwyddyn hon, ac yn ogystal â'm dyletswyddau a chynrychioliadau ward, rwyf wedi eistedd ar 6 phwyllgor, gan gynnwys sawl un ar gyfer craffu, sy'n rhan bwysig o'r rôl. Rwyf hefyd yn gynrychiolydd CBSP ar gyfer y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid, gan ddarparu presenoldeb allanol. Yn ogystal, rwyf wedi gweithio gyda...

Halo
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cadwch Gymru'n Daclus
Rheilffordd Cwm Garw
Reach
Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo
Ysgol Gynradd Ffaldau
Clwb Pêl-droed Llangeinwyr
Llangeinor Rangers
Canolfan Richard Price
Clwb Bowls Pontycymer
Clwb Tennis Cwm Garw
Y Cynghorydd Stirman a’r Cynghorydd Dendy
Cyngor Cymuned Cwm Garw

Iechyd Meddwl Cymunedol
Caethiwed i gyffuriau ac alcohol
V2C
The Wallich
Heddlu De Cymru
BAVO
Cangen Cwm Garw y Blaid Lafur
Safonau Masnach
Rheoli Plâu
Y Gwasanaethau Stryd
Cynllunio
Gwasanaethau Eiddo,
a llawer iawn o unigolion
Diolch i bawb sydd wedi helpu ein cymuned.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Eleni rhoddodd CBS Pen-y-bont ar Ogwr gymorth i gynghorwyr ar ffurf Cronfa Gweithredu yn y Gymuned.
Cynhaliais ymgynghoriad cymunedol a chael cefnogaeth ysgubol ar gyfer 'rhywbeth i bobl ifanc'. Gweithiais gydag arweinwyr ieuenctid, y PCSO a Halo i greu clwb ieuenctid newydd – y cyntaf yng Ngarw uchaf ers peth amser.
Ein bwriad oedd tua 30 o aelodau ond cawsom ein llethu – cofrestrodd 120 mewn 6 mis yn unig!
Er mwyn sicrhau y gall y clwb ieuenctid fod yn gynaliadwy, mae elusen newydd wedi'i sefydlu – Calon y Cwm. Bydd hyn yn rheoli unrhyw gysylltiadau yn y dyfodol ac yn rhoi cymorth ariannol a gweithgareddau newydd i sicrhau bod ein pobl ifanc yn derbyn gofal, yn cael eu hysgogi ac y darperir lle diogel a chymdeithasol iddynt dyfu.

https://www.facebook.com/rod4pontycymer/
I gael y diweddaraf

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Er bod gan Garw uchaf harddwch naturiol eithriadol, nid yw'n ward heb broblemau. Mae fy atgyfeiriadau wedi cynnwys galwadau i lawer o adrannau yn y CBS, ac i wasanaethau a rennir am atebion fel Safonau Masnach.
Rwy'n aelod o grŵp llywio ar gyfer 'Garw Egnïol' a gobeithio y bydd hyn a'r cymorth a gafwyd yn ddiweddar gan Gemau Stryd, yn helpu gyda gwelliant corfforol, meddyliol ac amgylcheddol.

Mae fy ngwaith fel llywodraethwr ysgol ac fel cadeirydd sawl grŵp cymunedol yn helpu i lywio fy ngweithgareddau.

**Y Cynghorydd** R M I Shaw **Dyddiad**: 04/05/2018